



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu ein strategaeth gweithlu 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Pam a sut bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru ar y cyd yn datblygu meysydd gwaith penodol i barhau i gyflawni'r strategaeth gweithlu ar y cyd 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Awst 2024

Diweddariad olaf: 20 Awst 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/gweithio-gydan-gilydd-straegaeth-gweithlu> am y fersiwn diweddaraf.

Mae'r dudalen hon yn nodi'r rhesymeg a lle bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru **ar y cyd** yn datblygu meysydd gwaith penodol i barhau i gyflawni'r strategaeth gweithlu ar y cyd 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Pam ein bod ni'n cydweithio

Ers i ni gyhoeddi'r [Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar 22 Hydref 2020, mae nifer o gynlluniau a strategaethau wedi'u datblygu ac wedi bod, neu wrthi'n cael eu datblygu i gyfrannu at uchelgais cyffredinol strategaeth y gweithlu. Mae llawer o gynnydd wedi bod hyd yma. Mae'r cynlluniau yn cynnwys ein cynlluniau tymor canolig integredig a'n cynlluniau cyflawni unigol, yn ogystal â chynlluniau Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, cynllun gweithredu'r gweithlu cenedlaethol y Gweinidog a llu o gynlluniau sefydliadol, sy'n cario eu trefniadau goruchwylio llywodraethu eu hunain, gan gynnwys adrodd perfformiad trwy fecanweithiau priodol.

Cyd-destun

Lansiwyd y strategaeth gweithlu ar y cyd 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng nghanol pandemig Covid-19. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig, a fydd yn cael effaith barhaol am flynyddoedd i ddod. Ers hynny, rydyn ni wedi profi argyfwng costau byw, rhyfel yn Wcrain, gwrthdaro yn y dwyrain canol yn ogystal ag effaith Brexit ar recriwtio staff mewn rhai meysydd. Rydyn ni hefyd wedi gweld aflonyddwch diwydiannol sylweddol ar draws ein gwasanaethau iechyd, a heriau ariannol

difrifol wrth ddarparu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd gan Strategaeth y Gweithlu 32 o gamau gweithredu ar draws saith thema a nodwyd trwy ymchwil ac ymgysylltu sylweddol. Mae tair egwyddor sylfaenol o lesiant, cynhwysiant a'r Gymraeg a diwylliant Cymru, wedi'u plethu trwy gydol y strategaeth a'r cynlluniau gweithredu. Er bod llawer o'r camau hyn wedi'u cwblhau, bydd rhai camau gweithredu yn cymryd oes y strategaeth i'w chyflawni'n llawn, ac mae ein gwaith hyd yma wedi gosod sylfeini cadarn yr ydym yn parhau i adeiladu arnynt.

Yn 2022, gwnaethom ymgysylltu, casglu tystiolaeth ac ymgynghori ledled Cymru i ystyried y camau blaenoriaeth ar gyfer datblygu strategaeth y gweithlu. Roedd y gwaith hwn yn cefnogi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi'r [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Gweithlu: Mynd i'r afael â Heriau'r Gweithlu GIG Cymru](#) ac roedd Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu [Cynllun Cyflawni Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 i 2027](#).

Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu cyfres o gamau ymarferol i weithredu fel galluogwyr i gyflymu gweledigaeth deng mlynedd strategaeth y gweithlu a chyflymu'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn [Cymru Iachach](#) o 'Weithlu iechyd a gofal cymdeithasol llawn cymhelliant a chynaliadwy'. Fe wnaethom hefyd ddatblygu nifer o gynlluniau penodol i'r gweithlu ar gyfer galwedigaethau blaenoriaeth.

Pam rydyn ni'n defnyddio'r dull hwn

Pan lanswyd y strategaeth, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith y byddai rhywfaint o waith yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol, tra byddai rhai yn cael eu cyflawni ar lefel ranbarthol neu hyd yn oed yn lleol. Rydyn ni'n falch o weld

bod hyn yn wir, ond mae hefyd yn golygu bod strategaeth y gweithlu yn cael ei datblygu drwy dirwedd gymhleth, ac mae llawer o waith yn cael ei gyflawni a'i adrodd drwy ystod eang o fecanweithiau.

Rydyn ni wedi myfyrio ar hyn, ac wedi dod i'r casgliad bod yr holl gynlluniau hyn yn cyfrannu at ein huchelgais 10 mlynedd yn gyffredinol, o *'cael gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol llawn cymhelliant, ymgysylltiol a gwerthfawr gyda'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cymru.'*

Gyda hyn mewn golwg, er ein bod yn parhau i ddatblygu meysydd gwaith sylweddol drwy'r gwahanol gynlluniau a dulliau a amlinellir uchod, rydyn ni wedi manteisio ar y cyfle hwn i nodi lle rydyn ni'n gallu gwneud cyfraniad unigryw ar draws y system ac wedi nodi ein hymrwymiad i wneud hynny, trwy ddatblygu meysydd gwaith strategol penodol ar y cyd. Bydd hyn yn arwain at wneud y mwyaf o gyfleoedd ac ychwanegu gwerth penodol a chrynodeg at y ddarpariaeth gyffredinol ar draws y system.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Nod strategaeth y gweithlu yw cynyddu cyfleoedd ar gyfer cydweithio ac integreiddio ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydyn ni'n cydnabod, er mwyn cyflawni gweledigaeth ac uchelgais y strategaeth hon, fod angen i ni gyd weithio gyda'n gilydd, ond rydyn ni'n ymwybodol bod risg o ddyblygu mewn sawl maes yn y cyd-destun presennol. Er mwyn lliniaru hyn mewn perthynas â strategaeth y gweithlu, bydd AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn unigol yn parhau i gynllunio, cyflwyno a monitro

gwaith y tu allan i'r gwaith a amlygir yn y ddogfen hon trwy ystod o fecanweithiau.

Mae'r dull hwn wedi ein galluogi i fanteisio ar y cyfle i amlinellu ein hymrwymiad i sut y byddwn ni yng Ngofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC yn bwrw ymlaen â rhaglen waith penodol ar y cyd i ategu hyn, a mynd â ni'n agosach at uchelgais 2030.

Rydyn ni wedi nodi saith maes strategol lle byddwn ni'n canolbwyntio ein hymdrechion ac yn mynd i'r afael â'r rhain mewn modd cyfunol fel ein bod yn ychwanegu gwerth yn ein cyd-weithio, yn osgoi dyblygu ar draws y system, ac yn y pen draw yn darparu gofal a chymorth rhagorol i bobl Cymru drwy ein gweithlu gwerthfawr.

Bydd y camau y byddwn yn eu cymryd ymlaen i'w cyflawni yn erbyn y saith maes strategol yn ailadroddol. Byddwn yn diffinio yn flynyddol sut y byddwn yn mynd ar drywydd cyflawni'r meysydd hyn, a fydd yn ein galluogi i gymryd agwedd hyblyg, a'n galluogi i ymateb i heriau strategol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd pellach pan fyddant yn codi.

Ein ffocws strategol ar y cyd

Ardal 1:

Creu cyfleoedd i rannu a lledaenu arferion gorau'r gweithlu ar draws gwasanaethau ieched a gofal cymdeithasol.

Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- feysydd sy'n ymwneud â gweithio integredig
- gofal wedi'i leoli

- datganiad ansawdd integredig ar gyfer pobl sy'n byw gyda bregusrwydd
- ymgysylltu â'r gweithlu a llesiant
- gwella ansawdd
- diwylliant
- datblygu sefydliadol
- cynllunio'r gweithlu
- gweithio mewn tîm amlasiantaeth ac aml-ddisgyblaethol
- meysydd sy'n hyrwyddo cadw staff.

Ardal 2:

Ymgorffori arweinyddiaeth dosturiol yn y ddau sector

Mae tystiolaeth yn dangos bod diwylliant tosturiol a chyfunol yn arwain at well gofal a chanlyniadau gwell i unigolion. Mae creu diwylliannau tosturiol yn ein helpu i ddenu a chadw ein gweithlu gwerthfawr. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyflymu ein gwaith mewn perthynas ag arfer a chynhwysiant gwrthwahanïaethol. Mae cyflawni'r diwylliant hwn yn gyfrifoldeb a busnes pawb.

Ardal 3:

Defnyddio'r rhwydwaith gyrfaedd iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i alinio a datblygu ymgyrchoedd a gwybodaeth gyrfaedd strategol.

Mae'r dull dwyieithog hwn a fydd yn adeiladu ar ddulliau cyfredol gan gynnwys ehangu mynediad at yrfaedd, profiad gwaith iechyd a gofal cymdeithasol, llwybrau gyrfa a chael ei gefnogi gan ymgyrchoedd marchnata cynhwysfawr a brandio adnabyddadwy ar gyfer yr ystod lawn o alwedigaethau, proffesiynau a rolau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Ardal 4:

Parhau i ysgogi gwelliannau i ddata'r gweithlu a dadansoddeg.

Mae'r cam hwn yn adeiladu ar ein gwaith cychwynnol i gynyddu capasiti a gallu i gynllunio'r gweithlu. Bydd ein dulliau cynllunio'r gweithlu yn cael eu cryfhau gan ein gwaith i greu setiau data safonedig o ansawdd uchel, dulliau dadansoddol a thechnegau modelu soffistigedig i gefnogi cynllunio, datblygu a chynhyrchiant y gweithlu.

Ardal 5:

Cefnogi cyflogwyr i wreiddio llesiant y gweithlu yn eu sefydliadau drwy adfywio a gweithredu'r fframweithiau iechyd a lles [gofal cymdeithasol](#) ac y [GIG](#).

Datblygwyd ein fframweithiau priodol gan ddefnyddio mewnbwn a gwybodaeth ein gilydd. Er mwyn cefnogi cyflogwyr, bydd ein gwaith yn cynnwys canllaw dibynadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth i arfer da, mesurau dibynadwy ac o ansawdd uchel o les staff a churadu adnoddau ac astudiaethau achos o ansawdd uchel yn ogystal â hyrwyddo a datblygu adnoddau a gwasanaethau llesiant pellach, gan gynnwys [Canopi](#) a'r [cerdyn gweithiwr gofal](#), [cerdyn golau glas](#) a chysylltiadau â chynlluniau cymhelliant eraill.

Ardal 6:

Cyflawni'r camau gweithredu a neilltuwyd ar y cyd o fewn cynllun gweithredu Mwy na geriau.

Mae gwreiddio'r Gymraeg yn ein holl waith yn egwyddor sylfaenol strategaeth y Gweithlu. Bydd y cam hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y meysydd a nodwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC i fwrw ymlaen ar y cyd.

Ardal 7:

Cefnogi datblygiad proffesiynol a dilyniant y gweithlu

Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gynnal cymwysterau galwedigaethol ar y cyd mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar Lefel 2 i 5, ein fframwaith prentisiaeth ar y cyd yn ogystal â chefnogi llwybrau cymhwyso a dysgu proffesiynol yn y ddau sector.

Yr uchelgais

Ein nod yw cael **gweithlu llawn cymhelliant, ymgysylltiol a gwerthfawr, iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cymru**. Yn benodol, mae hyn yn golygu bydd gennym ni weithlu:

- gyda'r gwerthoedd, ymddygiadau, gwybodaeth, sgiliau a hyder cywir i ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chefnogi lles pobl mor agos at adref â phosib
- mewn niferoedd digonol i allu darparu gofal iechyd a chymdeithasol ymatebol sy'n diwallu anghenion pobl Cymru
- sy'n adlewyrchu amrywiaeth, iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth
- sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sydd yn cael eu gwerthfawrogi.

Egwyddorion sylfaenol

Pan lanswyd y strategaeth, gwnaethom nodi tair egwyddor sylfaenol sef llesiant, cynhwysiant a'r Gymraeg a diwylliant Cymru a oedd, yn hytrach na chael eu rhannu'n themâu, wedi'u gwau trwy weithredu pob cam, a byddwn yn parhau i wneud hyn wrth ddatblygu'r gwaith hwn.

Llesiant

Pan gyhoeddwyd strategaeth y gweithlu, gwnaethom ddangos bod corff cynyddol a grymus o dystiolaeth sy'n cysylltu llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol â gwell canlyniadau i'r bobl yr ydym yn darparu iechyd, gofal a chymorth iddynt. Byddwn ni'n sicrhau bod ein gweithlu'n cael eu trin yn deg ac yn cael eu cydnabod am y cyfraniad y maen nhw'n ei wneud. Rydyn ni am i'n gweithlu fod yn hapus, yn iach ac yn cael cefnogaeth, fel eu bod yn eu tro yn cefnogi llesiant y bobl yn eu gofal ac y byddant yn fwy tebygol o aros gyda ni.

Mae cyflawni'r camau gweithredu yn y strategaeth hon yn cefnogi datblygiad diwylliant o lesiant, parch a gwelliant i'r ddwy ochr. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn trefniadau strategol a chyson ledled Cymru ar gyfer comisiynu'r gwasanaethau darparwyr preifat a gwirfoddol.

Y Gymraeg

Mae'r strategaeth wedi adeiladu ar sylfeini'r [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\)](#) a [Chymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg](#) i greu gweithlu cysylltiedig, iach, hyblyg, ymatebol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol sy'n adlewyrchu poblogaeth amrywiol Cymru, y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol. Bydd y fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â defnyddio a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yr ydym yn gweithio ynddi, yn gyrru gwreiddio'r Gymraeg i'r gofal a'r cymorth a ddarparwn.

Mae tystiolaeth o ganlyniadau clinigol gwell, a chanlyniadau i bobl sy'n cael mynediad at ofal a chymorth, yn amlygu'r pwysigrwydd hanfodol a roddwn ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg.

Byddwn yn anelu at wella ar y gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yma, er mwyn deall yn llawn, rhagweld a chynllunio i ddiwallu anghenion Cymraeg myfyrwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol, ein gweithlu ac, yn y pen draw, y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Mae cefnogi ein gweithlu i ddarparu gofal gan ddefnyddio'r Gymraeg lle bo angen, yn egwyddor sylfaenol y mae'n rhaid iddi fod yn sail i bob maes o'r strategaeth gweithlu hon.

Cynhwysiad

Mae creu diwylliant o gynhwysiant gwirioneddol, tegwch a chyfiawnder ar draws ein gweithlu yn parhau i fod wrth wraidd y strategaeth hon. Mae tystiolaeth barhaus a chlir o dlodi yn gwaethygu a bylchau cynyddol mewn profiad a chyfleoedd i bobl a anwyd i wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a nodweddion gwarchoddedig. I Sicrhau tegwch a chyfiawnder, mae cyd-gynhyrchu gyda'r rhai yr effeithir arnyn nhw fwyaf yn allweddol i'w gweithredu, a bydd yn cael ei ddatblygu drwy'r holl gamau a gymerwn ymlaen.

Mae [arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol](#) cryf yn sicrhau ffocws clir ar ymgysylltu a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i bobl o amgylchiadau economaidd-gymdeithasol gwahanol, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu'r un nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Cadw ein gweithlu

Mae cadw ein staff yn hanfodol i gynaliadwyedd ein gweithlu yn y dyfodol. Rydyn ni wedi defnyddio'r ymadrodd 'bydd 80 y cant o'r gweithlu heddiw gyda ni yfory', ond mae hyn bellach yn hen ffasiwn, a fedrwn ni ddim dibynnu arno

erbyn hyn.

Rydyn ni'n gweld disgwyliadau gwaith sy'n newid yn gyflym, ac mae angen i ni gymryd camau yn barhaus ac yn weithredol i ddarparu profiad gwaith rhagorol, mewn amgylcheddau cefnogol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn wahanol yn ein cynnig o arferion gwaith, datblygu a chyfleoedd gyrfa a hyblygrwydd, o ran hyfforddiant a gwaith.

I gydnabod hyn, rydyn ni wedi nodi bod cadw staff yn elfen sylfaenol a hanfodol o'r strategaeth. Credwn y bydd y camau gweithredu o fewn pob un o'r saith thema yn dod ynghyd i ddarparu gweithlu ymgysylltiol, gyda chymhelliant ac iach sy'n fwy tebygol o aros gyda ni. Fodd bynnag, gallwn ni ddim dibynnu ar hyn yn unig, ac rydyn ni wedi lansio rhaglen gadw o ansawdd uchel, a fydd yn canolbwyntio'n sylweddol ar gyflawni'r camau hyn.

Ein nod yw cael gweithlu sy'n cael ei arwain gan arweinwyr rhagorol sy'n creu diwylliannau tosturiol sy'n galluogi staff i ffynnu, arloesi i ffynnu a gwella canlyniadau i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Trefniadau llywodraethu

Bydd AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn atebol i'w byrddau priodol am gyflawni, drwy grŵp gweithredol sy'n adrodd i fwrdd goruchwylio'n rheolaidd. Yn ogystal, bydd cyfarfod bwrdd ar y cyd yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn.

Cyfathrebu

Mae ein gwefannau [AaGIC](#) a [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) yn cynnwys gwybodaeth, adnoddau a diweddariadau cynnydd fel bod ein gwaith yn dryloyw ac yn cael ei rannu'n eang.

Edrych ymlaen at 2030 a thu hwnt

Rydyn ni'n credu bod y [Cynllun gweithlu hirdymor GIG Lloegr](#), cafodd ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023, yn ysgogi trafodaeth feirniadol am siâp gofal, gwaith ac addysg yn y dyfodol – a sut i sicrhau'r cydbwysedd gorau rhyngddynt, i ddarparu'r gofal gorau posibl ar gyfer anghenion newidiol ein poblogaeth. Mae'r pwysau ariannol yn cael ei yrru gan brinder sylweddol yn y gweithlu - ni fyddwn yn torri'r cylch hwn heb gynllunio gweithlu tymor hir. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau yn unol â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae newidiadau i addysg a hyfforddiant yn cymryd amser i weithredu'n ddiogel, a bydd angen newidiadau os ydyn ni o ddifrif ynghylch agenda atal. Rydyn ni'n cydnabod y bydd llai o bobl iau ar gael i ofalu am y boblogaeth hŷn, ac felly bydd ein cyfleoedd ar gyfer cyflenwi'r gweithlu hefyd yn newid. Mae'r ddibyniaeth drom barhaus ar gydweithwyr rhyngwladol i gefnogi ein gwasanaethau hefyd yn risg, yn enwedig yng nghyd-destun prinder gweithlu iechyd byd-eang.

Dim ond edrych ymlaen rhyw dwy i dair blynedd y gall cynlluniau'r gweithlu yr ydym yn eu datblygu ar hyn o bryd. Er eu bod nhw'n canolbwyntio ar wella ac arloesi, ni allant fod yn wirioneddol drawsnewidiol oni bai ein bod yn edrych ymhellach i'r dyfodol.

Credwn fod datblygu cynllun gweithlu hirdymor ar gyfer Cymru yn hanfodol wrth benderfynu ar y camau y mae angen i ni eu cymryd heddiw i greu gweithlu mwy cynaliadwy a byddai'n nodi'r camau y mae angen i ni eu cymryd i:

- sicrhau dyfodol o sefydlogrwydd a chyflenwad cyson o'r gweithlu i ateb y galw yn well – gan leihau bylchau a diffygion
- ysgogi trafodaethau beirniadol am siâp gofal, gwaith ac addysg yn y dyfodol – gan danio'r achos dros drawsnewid
- adeiladu mewn ystwythder a hyblygrwydd i'n camau gweithredu tymor byr oherwydd bod y dyfodol yn dechrau nawr
- cynllunio gweithlu yn effeithiol sy'n gallu cefnogi'r agenda newid i atal yn ogystal ag ymateb i ddatblygiadau cyflym mewn triniaeth a thechnoleg – dull "mwy a gwahanol"
- paratoi ar gyfer y gostyngiad a ragwelir mewn poblogaeth oedran gweithio a'r newid cyflym yn y ffyrdd y mae pobl yn dymuno gweithio
- hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd y gweithlu ar draws cylchoedd gwleidyddol, gan wella atyniad, recriwtio a chadw.

Yn y strategaeth, gwnaethom gydnabod nad ydy'r hyn a wariwn ar ein gweithlu yn gost, ond yn hytrach mae'n fuddsoddiad. Bydd parhau i gyflawni'r strategaeth hon yn sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf posib o'r buddsoddiad hwn i'n gweithlu, i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu ac i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fersiwn Word o'r adroddiad

- [Gallwch chi hefyd lawrlwytho'r adroddiad ar ffurf dogfen Word.](#)